



Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 26 Hydref 2019 yn y Drenewydd, Powys

2019.24 Addoli agoriadol

Yn ystod ein haddoli agoriadol darllenwyd rhif 31 *Cynghorion ac Ymholiadau* yn y Gymraeg a'r Saesneg.

2019.25 Croeso a nodi presenoldeb

Rydym yn croesawu 34 o Gyfeillion yma heddiw fel a gofnodwyd ar y rhestr bresenoldeb.

Cynrychiolwyr y Cyfarfodydd Ardal heddiw yw:

- CA De Cymru: Deborah Rowlands a Jess Morgan
- CA Gororau'r De: Helen Briggs (ataliwyd). David Briggs fydd yn adrodd.
- CA Canolbarth Cymru: Helen Porter (ataliwyd). Gethin Evans fydd yn adrodd.
- CA Gogledd Cymru: Angela Arnold (ataliwyd), Ruth Moore Williams, Frances Voelcker a Martin Hughes

Ein henaduriaid heddiw yw Angela Ormrod a Stevie Kray. Ein cyfieithydd heddiw yw Steffan Wiliam.

2019.26 Calon a *The Friend*

Bydd Angela Ormrod yn ysgrifennu adroddiad am y cyfarfod hwn i *Calon* a bydd Christine Trevett yn ysgrifennu i *The Friend*.

2019.27 Cofnodion penderfyniadau rhwng cyfarfodydd

i. Bu clerc y Grŵp Ffocws yn anfon llythyr ymlaen at glerc Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru gan Fforwm y Gymdeithas Ddinesig ynglŷn â Brexit Heb Fargen. Ar ôl ymgynghori, teimlai'r clercod ei bod yn briodol i glerc y Grŵp Ffocws lofnodi hwn, yn hytrach na chlerc y Cyfarfod.

ii. Penderfynwyd yng nghyfarfod clercod Cymru anfon y cofnodion canlynol at yr holl Gyfarfodydd Ardal cysylltiedig:

Cofnod 1 Cyfarfod y Clercod ac Ymddiriedolwyr 090919

Sut gall Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru (CCNgh) fod yn hanfodol i Grynwyr yng Nghymru? Pa bryderon allweddol sy'n symbylu Cyfeillion y gall CCNgh eu cefnogi ar lefel Cymru gyfan? Mae clercod CCNgh yn edrych ymlaen at dderbyn ymatebion gan Gyfarfodydd Ardal erbyn diwedd mis Rhagfyr

2019 ynglŷn ag Adroddiad Grŵp Ffocws Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru o'r Cyfarfod yn Aberystwyth ym mis Chwefror 2019 sy'n amlinellu'r materion hyn. Ein gobaith yw y bydd Cyfarfodydd Ardal yn gallu adnabod y materion hynny sy'n ysgogi ac sydd o bwys i Gyfeillion yng Nghymru ac y gallai CCNgh hwyrach eu dwyn yn eu blaenau.

Cofnod 2 Cyfarfod y Clercod ac Ymddiriedolwyr 090919

Rydym wedi clywed gan Helen Oldridge am y cynlluniau i gael cnewyllyn o staff Cyfarfod Blynyddol Prydain i'w leoli mewn ardaloedd lleol. Rydym yn cytuno y bydd hyn yn cael ei drafod yng Nghyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ym mis Hydref a bydd unrhyw Ddatganiad o Ddiddordeb gan y Cyfarfod hwnnw a'i Gyfarfodydd Ardal cysylltiedig (ar gyfer cnewyllyn lleol) yn cael ei gyflwyno ar ôl y dyddiad hwnnw. Rydym yn cytuno i anfon y cofnod hwn at yr holl Gyfarfodydd Ardal a chyrddau lleol cysylltiedig.

iii. Yn ystod yr haf, derbyniodd clercod CCNgh wahoddiad i anfon cyflwyniad at bwyllgor agenda CBP. Ysgrifennwyd y cyflwyniad mewn ymgynghoriad â chlerc y Grŵp Ffocws gan gadw mewn cof y trafodaethau yn nau gyfarfod diwethaf Clercod a Chlercod Ymddiriedolwyr CCNgh a Chyfarfodydd Ardal sy'n gysylltiedig â Chymru. Gofynnwyd i Peter Hussey, fel clerc y Grŵp Ffocws, fynychu'r pwyllgor i siarad am y cyflwyniad.

iv. Penodwyd Huw Meredydd Owen gan Ymddiriedolwyr CCNgh i gysylltu â Chwrdd Caerdydd am eu cynllun datblygu, yn ogystal â Deborah Rowlands a Gordon Blackburn.

2019.28 Cofnodion a dderbyniwyd ers ein cyfarfod diwethaf

Rydym wedi derbyn y cofnod canlynol gan y Pwyllgor Agenda mewn ymateb i'n cyflwyniad i'r pwyllgor hwnnw:

Yng nghyfarfod Pwyllgor Agenda'r Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd yn Friends House, 173 Euston Road, Llundain NW1 2BJ 27-29 Medi 2019

2019.09/07 Dirnad testunau'r agenda ar gyfer Cynulliad y Cyfarfod Blynyddol 2020: rhan 2

Rydym wedi cydweithio mewn grwpiau i ddatblygu ein syniadaeth ynglŷn â thestunau ar gyfer agenda Cynulliad y Cyfarfod Blynyddol 2020, gan ddechrau datblygu ffyrdd y gallai'r themâu sy'n dod i'r fei esblygu'n agenda. Mae'r themâu y dechreuon ni eu dirnad yn y Cyfarfod Blynyddol yn 2019 yn aros gyda ni. Mae angen i ni gael hyd i ffordd o gyfuno'r rhain, gan edrych ar y cysylltiadau rhyngddynt a datblygu ein hystyriaeth. Fe'n hatgoffwyd nad oes gofyn i ni gynllunio ar gyfer diweddglo penodol, ond yn syml, dim ond gadael lle ac amser i'r ysbryd siarad yw pen draw ein hymbaratoi ar gyfer Cynulliad y Cyfarfod Blynyddol i fod.

Mae angen i ni helpu Cyfeillion i ymbaratoi i fod gyda'i gilydd mewn cymuned. Rydym am ymgyffroi wrth groesawu Cyfeillion i'n cyfarfodydd ac i'n cyfarfod blynyddol. Rydym wedi clywed bod gan y Crynwyr rai offer a dulliau sefydledig i fynd i'r afael â chwestiynau anodd. Sut gallwn greu meysydd ymddiriedaeth lle gellir mynd i'r afael â'r cwestiynau hynny a sut gallwn helpu Cyfeillion i symud oddi wrth ddadleuon du a gwyn lle y gwelir materion fel rhai i'w hennill neu eu colli? A allen ni ddechrau o

safbwynt sy'n nodi beth rydym yn ei wybod am y cwestiynau anodd hyn, fel man cychwyn cadarnhaol? A allwn ni ddarganfod ffordd o drefnu dysgu, uwchsgilio a dirnad yn effeithiol, i symud tuag at weithredu'n ystyrlon?

Rydym wedi clywed enwau rhai Cyfeillion a wahoddir o gyfarfodydd blynyddol eraill i ymuno â ni yn ein cynulliad. Ein gobaith yw y gallant ymuno â ni. Sut gallwn wneud y defnydd gorau o'u dulliau, eu dealltwriaeth a'u doniau, cyn ac yn ystod ein cynulliad? Dim ond rhan fach o deulu'r Cyfeillion yn fyd-eang ydyn ni ac ni ddylem fod ofn gofyn am help yn ein dirnadaeth gorfforaethol.

Rydym wedi clywed sawl gwaith am syniadau ar gyfer sesiynau panel sy'n caniatáu ystyried materion penodol o safbwynt rhyngwladol, cenedlaethol a lleol.

Rydym yn diolch i gynrychiolwyr y pwyllgorau a chyrff eraill am rannu yn y ddirnadaeth heddiw.

Bydd Pwyllgor Agenda'r Cyfarfod Blynyddol (YMAC) yn cymryd beth sydd wedi'i gynhyrchu a'i drafod gan barhau i weithio arno wrth i ni symud tuag at y Cyfarfod Blynyddol. Rydym yn anfon y cofnod YMAC 2019 09 07 at y pwyllgorau a chyrff eraill a gynrychiolir, gan nodi y bydd ein dirnadaeth yn parhau dros y misoedd i ddod.

Siobhan Haire, Clerc

Mynychodd Peter Hussey y Pwyllgor Agenda gan adrodd heddiw fod llawer wedi darllen papur y Grŵp Ffocws: *Rhai meddyliau ar y gwahaniaethau diwylliannol rhwng Cymru a Lloegr*.

Mae angen ystyried mater trawsrywedd gyda chariad a gofal. Gwahoddir pobl ifainc i gyfrannu mwy i fywyd y Cyfarfod Blynyddol.

Rydym wedi clywed gan Gyfeillion y byddent yn croesawu mwy o ffocws ar gynaliadwyedd. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn defnyddio ein sgiliau i ddatrys gwrthdaro rhyngddon ni ein hunain.

2019.29 Enwebiadau a phenodiadau

i. Enwebiadau a ddygir gerbron:

Mae cynullydd y Grŵp Enwebiadau yn anfon yr adroddiad canlynol atom:

Ar gyfer y **preswyliaid yn 2021**, rydym yn dwyn yr enwau canlynol gerbron:

- Medi James *CLI Aberystwyth CA Canolbarth Cymru*;
- Chris Holmquist *CLI Penarth CA De Cymru*;
- Jill Evans *CLI Llanbedr Pont Steffan CA De Cymru*;
- Jules Montgomery *CLI Machynlleth CA Canolbarth Cymru*;
- Mike Clark *CLI Llangollen CA Gogledd Cymru*;
- Frances Voelcker *CLI Porthmadog CA Gogledd Cymru*;
- Jeff Beatty *CLI Almeley Wootton CA Gororau'r De*

Y Cyfeillion hyn i wasanaethu'n syth a hyd at ddiwedd y penwythnos preswyl ym mis Hydref 2021.

Ar gyfer Cynrychiolydd Gogledd Cymru **Grŵp Ffocws Cymru**, rydym yn dwyn yr enwau canlynol gerbron:

- Gerald Hewitson, *CLI Caergybi CA Gogledd Cymru* i wasanaethu o 01.01.20 tan 31.12.22

Ar gyfer y **Grŵp Adnoddau**, rydym yn dwyn yr enwau canlynol gerbron:

- Ruth Harding *CLI Caerdydd, CA De Cymru*; i wasanaethu o 01.01.20 tan 31.12.22
- Carey Thomas *CLI Abertawe, CA De Cymru*; i wasanaethu o 01.01.20 tan 31.12.22
- Frances Voelcker *CLI Porthmadog, CA Gogledd Cymru* i wasanaethu o 01.01.20 tan 31.12.22

Ar hyn o bryd nid ydym wedi cael hyd i Gyfaill i wasanaethu fel Cyd-glerc, ond mae Ruth Moore Williams wedi cytuno i gael ei henwebu fel clerccynorthwyol ychwanegol. Nid ydym chwaith wedi cael hyd i Ymddiriedolwr arall. Mae'r Ymddiriedolwyr yn canolbwyntio ar eu gwaith ac fel tîm yn cydweithio'n dda â'i gilydd. Hoffem gael hyd i rywun i wasanaethu o Ganolbarth Cymru.

Gan fod yr enwau hyn yn dderbyniol, drwy hyn fe'u penodir. Gofynnwn i Frances Voelcker gynnull cyfarfod cyntaf grŵp cynllunio'r preswylad.

ii. Enwebiad ar gyfer y Pwyllgor Enwebiadau:

Penodwyd Sue Shreeve a Deborah Rowlands i fod yn grŵp chwilio am ddau aelod newydd o'r Pwyllgor Enwebiadau a gofynnwyd iddynt ddwyn enwau gerbron ein cyfarfod ym mis Hydref. Maent yn adrodd nad ydynt wedi llwyddo hyd yma i ganfod neb o Ganolbarth Cymru neu Ororau'r De sy'n fodlon cael ei enwebu i'r rôl allweddol hon. Fodd bynnag, mae Sue Shreeve (CACC) a Peter Hussey (CADC) ill dau wedi cytuno i fod yn ddolen rhwng pwyllgorau enwebiadau eu Cyfarfodydd Ardal ac enwebiadau CCNgh. O dan yr amgylchiadau, cytunwn y gallai'r grŵp chwilio weld a allant lenwi'r swydd wag naill ai o CAGC neu CADC. Gofynnwn iddynt adrodd yn ein cyfarfod ym mis Chwefror.

iii. Enwebiadau a geisir:

- i) Rhywun i gysylltu â Cytûn ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron ym mis Awst 2020. Gofynnwn i CACC benodi rhywun ar ein rhan, fel nad oes oedi wrth ymuno ag unrhyw grŵp a ffurfir gan Cytûn.
- ii) Person cyswllt ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru. Gwirfoddolodd Jeff Beatty i fod yn gyfrifol am y rôl yma a derbyniwyd ei gynnig yn llawen.
- iii) Ymddiriedolwr o Gyfarfod Ardal Canolbarth Cymru.

2019.30 Y Clerc Cofnodi, Paul Parker

Mae Paul Parker, ein clerccofnodi, wedi'n harwain mewn trafodaeth am siâp posibl strwythurau staffio gwaith CBP yn y dyfodol a chydweithrediad rhwng y gwaith canolog a CCNgh.

Mae'r rhaglen Bywiogrwydd mewn Cyfarfodydd wedi bod yn hynod lwyddiannus wrth gydgardded â chyfarfodydd, gan gydweithio'n agos yn y man lle y cynhelir y cyfarfodydd. Mae CBP ac Ymddiriedolwyr Woodbrooke wedi penderfynu cydweithio i osod Gweithiwr Datblygu Lleol o fewn cyrraedd pob cyfarfod ac i arbrofi gyda chnewyll neu glystyrau ledled y wlad. Bydd rhai pethau'n aros yn Llundain: mae Friends

House yn gweithio'n galed dros Grynwyr gan ddod ag incwm i mewn. Rhaid i rywfaint o'r gwaith gwleidyddol gael ei wneud yn Llundain, ond mae cefnogi cyfarfodydd yn cael ei wneud yn well yn y man lle y'u cynhelir. Mae'r goblygiadau'n sylweddol a rhaid eu gweithio i'r pen ond mae'n rhaid i ni leihau teithio mewn ymateb i'r argyfwng yn yr hinsawdd gan weithio'n fwy lleol. Rydym yn sôn am fyw yn syml ond mae ein strwythur yn gymhleth.

Mae yna newidiadau mawr o ran pwy ydyn ni: ceir llai o deuluoedd Crynwraidd a mwy o Grynwyr unigol. Ar gyfartaledd, mae maint cyfarfodydd y Crynwyr wedi syrthio o 24 i 18 ond cafwyd twf mewn cyfarfodydd bach iawn. Mae symudiad yn yr awydd sydd gan bobl am y math yma o gyfarfod lle gall pobl ddod ynghyd, ymddiried ac ymrwymo.

Rydym wedi trafod y broblem bod Cynulliad y Cyfarfod Blynyddol (CCB) yn digwydd yr un wythnos â'r Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r CB wedi gofyn am adolygiad o'r cyfarfod blynyddol felly gall materion wella yn y dyfodol.

Cafwyd arbrofion ar gyfer grwpiau penodol o Grynwyr, er enghraifft, pobl yn eu harddegau, gyda thwf yn nifer y grwpiau wythnosol neu bythefnosol i'r ardegau sy'n canolbwyntio ar bryderon Cyfeillion ifainc, fel newid yn yr hinsawdd. Bydd yn rhaid i ni ystyried a allai CBP gefnogi CCNgh wrth i hwnnw fod yn fwy gweithredol wrth ddylanwadu ar y broses wleidyddol.

Ceir problem gyfathrebu, gyda llawer o waith yn cael ei wneud yn ganolog ond ddim yn cyrraedd yr unigolion sydd â diddordeb mewn mater penodol. Gellir anfon cylchlythyrau'n uniongyrchol neu newyddion drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae angen gwybodaeth ddwyffordd arnon ni i gyfathrebu'n ddwyffordd.

Gweithiwr ar ei ben ei hun yw'r Gweithiwr Datblygu Lleol ar hyn bryd. Wrth i'r model newydd gael ei gyflwyno, efallai y bydd sawl gweithiwr a allai weithio naill ai o leoliad penodol neu a allai ddod ynghyd i gefnogi'i gilydd. Rhaid i ni gyfathrebu wrth i'r broses ddatblygu fel na fyddwn yn mynd yn sownd. Symlaf yn y byd y strwythur, rhataf yn y byd ei redeg.

Rydym wedi casglu y bydden ni am wneud cais i greu clwstwr neu gnewyllyn yng Nghymru a allai gydnabod ac ymateb i anghenion penodol Cymru fel cenedl ddatganoledig sydd â chyfreithiau'n ogystal ag arferion sy'n wahanol i'r Alban neu Loegr. Hoffem ymwneud â datblygiad clwstwr o'r fath a chael ein cynnwys yn y penderfyniad ynglŷn â'i leoliad. Ein gobaith yw y bydd yr holl gyfarfodydd sydd â diddordeb yn cymryd rhan yn y sgwrs. Rydym yn anfon y rhan yma o'r cofnod at y Clerc Cofnodi.

2019.31 Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Mae Deborah Rowlands, Clerc i'r Ymddiriedolwyr, wedi siarad am yr adroddiad sydd wedi'i gylchredeg drwy e-bost, sydd yma mewn print heddiw ac a gaiff ei atodi i'r cofnodion hyn.

2019.32 Cytundeb dealltwriaeth: CCNgh a Chyfarfodydd Ardal

Cylchredir Memorandwm Dealltwriaeth drafft rhwng Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru a'r Cyfarfodydd Ardal cysylltiedig i'r pedwar Cyfarfod Ardal cysylltiedig yn dilyn y cyfarfod hwn. Gwahoddir Cyfarfodydd Ardal i anfon sylwadau ac awgrymiadau yn ôl at y swyddog gweinyddol, Jules Montgomery, erbyn diwedd mis Ionawr 2020. Gan fod CCNgh hefyd mewn trafodaeth â CBP am Femorandwm Dealltwriaeth rhwng CCNgh a CBP, ein gobaith yw cydlynu'r gwaith hwn fel y bydd pob ardal yn glir ac wedi'i threfnu'n dda.

2019.33 **Adroddiadau:**

Mae'r adroddiadau wedi cael eu cylchredeg drwy e-bost ac mae copïau printiedig ar gael heddiw. Fe'u hatodir i'r cofnodion hyn.

i Cyfarfod Clercod ac Ymddiriedolwyr Cyfarfodydd Ardal a CCNgh 09.09.19

Mae Catherine James wedi siarad â ni am yr angen i gydnabod bod y gymuned yr ydym yn perthyn iddi'n fwy na'r cyfarfod ardal neu'r cwrdd lleol. A ydym yn ymateb i anghenion ysbrydol ein gwlad? Ychydig mewn nifer ydyn ni a rhaid i ni fod â phwyslais ar newid yn y ffordd yr ydym yn gweithio. Rydym wedi cael ein hatgoffa i'r Cyfeillion ddechrau gydag agenda er newid ac er gweithredu'n wleidyddol.

Rydym wedi clywed am y syniad o ofyn i'r Ymddiriedolwyr fod yn gyfrifol am ardal fwy o faint na'r Cyfarfod Ardal – Cymru gyfan o bosibl; os felly, byddai angen i ni ystyried sut y byddai ein helusennau'n cyfuno. Rhaid i ni ystyried y mater hwn mewn cysylltiad â'r Cyfarfodydd Seisnig yn ein Cyfarfodydd Ardal cysylltiedig. Rydym yn cydnabod yr angen i fod yn gymuned agored yng Nghymru yn hytrach nag un gaeedig. Gofynnwn i Gyfarfodydd Ardal a Chlercod a Chlercod Ymddiriedolwyr CCNgh barhau i ystyried y mater hwn o dan ymbarél CCNgh mewn cysylltiad â'r Pwyllgor Stiwardiaeth a'n Gweithiwr Datblygu Lleol.

ii a. Rydym wedi derbyn adroddiad gan Jeff Beatty am bresenoldeb y Crynwyr yn Sioe Frenhinol Cymru. Diolchwn iddo am ei adroddiad.

ii b. Rydym wedi derbyn adroddiad gan Catherine James am bresenoldeb y Crynwyr yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Diolchwn iddi am ei hadroddiad.

iii Rydym wedi derbyn adroddiad gan Peter Hussey am Gyfarfod Pwyllgor Trefniadau'r Cyfarfod Blynnyddol 28 Medi. Diolchwn iddo am ei adroddiad.

iv Rydym wedi derbyn adroddiad gan Angela Ormrod am benwythnos preswyl Cyngor Cynrychioladol Quaker Life. Diolchwn iddi am ei hadroddiad.

2019.34 Aled Eurig: Gwrthwynebiad i'r Rhyfel Mawr yng Nghymru

Mae Aled Eurig, ein siaradwr heddiw, wedi siarad am fentrau heddwch yng Nghymru, yn enwedig rhai o eiddo'r Crynwyr, dros y ddwy ganrif ddiwethaf. Gwrthwynebydd cydwybodol oedd tad Aled yn yr Ail Ryfel Byd sy'n golygu bod y pwnc yn agos at ei galon.

Roedd tua 1000 o ddynion yng Nghymru yn wrthwynebwyr cydwybodol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Ar ddechrau'r rhyfel, Thomas Rees, pennaeth Coleg Bala Bangor (y coleg diwinyddol) a ymgymerodd â'r cyfrifoldeb o ffurfio'r ymateb cyntaf i'r rhyfel. Ef hefyd oedd sefydlydd Cymdeithas y Cymod. Sefydlwyd chwe grŵp yng Nghymru; erbyn diwedd y rhyfel, roedd mwy o ganghennau. Fe'i ffurfiwyd i ddwyn at ei gilydd bobl a wrthwynebai'r rhyfel. Unigolyn allweddol yn hyn o beth oedd George M Ll Davies.

Papur oedd 'Y Deyrnas' a sefydlwyd (yn y Bermo) i wrthwynebu'r rhyfel. Roedd ganddo fwy o ddylanwad yn yr ardaloedd Cymraeg; er enghraifft ym Mlaenau Ffestiniog, gwerthid 70 o gopïau bob mis a 60 yn Nhrawsfynydd, gan ddangos cryfder y gwrthwynebiad. Bu ardaloedd lle'r oedd y Blaid Lafur Annibynnol yn gryf hefyd yn gryf yn erbyn y rhyfel.

Nid oedd gan y tribiwnlysoedd fawr o gydymdeimlad â'r gwrthwynebwyr cydwybodol. Bu cryn dipyn o amrywiaeth yn agweddau'r gwrthwynebwyr ac felly diffyg nerth fel corff, gyda rhai â gwrthwynebiadau

gwleidyddol ac eraill â gwrthwynebiadau diwinyddol. Roedd yr eglwys sefydledig o blaid y rhyfel, rhywbeth a greodd dyndra.

Roedd yna 'absoliwtyddion' a wrthododd bob gwasanaeth ac yn aml a gâi eu carcharu. Roedd tri Chrynwr yng Nghymru yn 'absoliwtyddion'. Talodd Aled Eurig deyrnged i waith Gethin Evans wrth ysgrifennu am ymateb y Crynwyr i'r rhyfel ar y pryd. Ni chafodd rhai gwrthwynebwyr cydwybodol eraill eu carcharu ond fe'u hanfonwyd i garchardai fel gwersylloedd gwaith lle'r oedd y gwaith a'r amodau'n echrydus. Ar Dartmoor, roedd cymysgedd eclecticig o wahanol fathau o safbwyntiau ar ran y gwrthwynebwyr. Ymdeimlad â gwrthwynebiad oedd yn eu rhwymo ni waeth beth oedd eu gwreiddiau.

Roedd sawl gwersyll gwaith yng Nghymru: anfonid gwrthwynebwyr i Landdeusant, Y Tymbl, Y Gelli a Phenderyn. Academyddion oedd llawer ohonynt nad oedd y gwaith yma'n addas iddynt o gwbl. Amrywiai'r agwedd tuag at wrthwynebwyr cydwybodol. Roedd y Tymbl, er enghraifft, yn gyfeillgar iawn wrthynt yn yr un modd â'r Gelli. Ym Merthyr Tudful, deuai miloedd ynghyd mewn cyfarfodydd bob ychydig wythnosau i brotestio yn erbyn y rhyfel. Y mudiad mwyaf o wrthwynebwyr yng Nghymru oedd y Cristadelffiaid; roedd y llywodraeth wedi cydsynio â hyn gan eu bod yn barod i weithio mewn ffatrioedd arfau.

Bu'r colegau diwinyddol yn ddylanwadol yn nhwf nifer y gwrthwynebwyr. Roedd y llywodraeth am osgoi unrhyw gynnydd pellach yn nifer y gwrthwynebwyr drwy ffurfio corfflu meddygol ym 1916 fel y byddai gwrthwynebwyr cydwybodol yn ymuno ac yn dod yn bersonél meddygol yn y fyddin.

Amrywiai'r farn am y gwrthwynebwyr: fe'u gelwid yn *shirkers* ac yn gachgwn gan rai; i eraill, merthyron oeddynt a dathlwyd eu dewrder. Effaith y Rhyfel Byd Cyntaf oedd newid y farn ynglŷn â gwrthwynebwyr: erbyn yr Ail Ryfel Byd, roedd y tribiwnlysoedd yn fwy proffesiynol gan weld bod sawl lefel o wrthwynebiad i'w chael. Cynhysgaeth y gwrthwynebwyr oedd cryfhau'r gwaith dros heddwch a wnaed yng Nghymru yn ystod y dauddegau a'r tridegau: deiseb y gwragedd, sefydlu'r Urdd a chefnogaeth i Gynghrair y Cenhedloedd.

Mae'r sgwrs wedi bwrw llawer o oleuni i ni.

2019.35 Dyddiadau a manau cyfarfod yn 2020

- 22 Chwefror, 2020: Llanbedr Pont Steffan: Adroddiad y Grŵp Ffocws am amrywiaeth ddiwylliannol a chynnull mewn grwpiau Gyfeillion sy'n gweithio mewn rolau.
- 27 Mehefin, 2020: Bangor: Ffocws ar Gyfeillion Ifainc
- 24 Hydref, 2020: Y Fenni: Grwpiau o Gyfeillion â phryderon; cyfarfodydd symlach

Y Cofnod Olaf

Diolchwyd i Catherine James am ei holl flynyddoedd o wasanaeth i CCNgh fel clerc a'i chefnogaeth i Tricia yn ei rôl glercio newydd.

Llofnodwyd: Catherine James (cyd-glerc) Tricia Bridgewater (cyd-glerc) Jane Harries (clerc cynorthwyol)